OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 117 (Cy.8)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*23 Ionawr 2007*
Yn dod i rym - -	*31 Ionawr 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan mai ef yw'r person priodol at ddibenion adran 79(7C)(d) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990")(**1**), yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau hynny a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, ac sy'n arferadwy bellach gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan baragraff 1(4) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Niwsansau Statudol (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 31 Ionawr 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Mangreoedd diwydiannol perthnasol etc: eithriadau pellach

2. At ddibenion paragraff (d) o adran 79(7C) o Ddeddf 1990, rhagnodir tir o ddisgrifiad a grybwyllir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Diwygio Rheoliadau Niwsans Statudol (Apelau) 1995

3.—(1) Mae Rheoliad 2 (apelau o dan adran 80(3) o Ddeddf 1990) o Reoliadau Niwsans Statudol (Apelau) 1995(**3**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:

(2) Ym mharagraff (2)(e)—

(a) ym mharagraff (i), ar ôl "(f)" mewnosoder ", (fa)"(**4**);

(**1**) 1990 p. 43; mewnosodwyd y diffiniad o "person priodol" yn adran 79(7) gan adran 101(4) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p. 16), a mewnosodwyd adran 79(7C) gan adran 101(5) o'r Ddeddf honno.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S. 1995/2644; mae'r Rheoliadau yn rhychwantu Cymru a Lloegr.

(**4**) Mewnosodwyd adran 79(1)(fa) o Ddeddf 1990 gan adran 101(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (p. 16).

(b) ar ôl paragraff (iii) mewnosoder—

"or

(iv) is a nuisance falling within section 79(1)(fb) of the 1990 Act and—

(aa) the artificial light is emitted from industrial, trade or business premises, or

(bb) the artificial light (not being light to which sub-paragraph (aa) applies) is emitted by lights used for the purpose only of illuminating an outdoor relevant sports facility (within the meaning given by section 80(8A) of the 1990 Act),"(**5**)

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

D. Elis-Thomas
23 Ionawr 2007 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) Mewnosodwyd adran 79(1)(fb) o Ddeddf 1990 gan adran 102(2) o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd Glân (p. 16). Mewnosodwyd adran 80(80A) gan adran 102(3) o Ddeddf 2005.
(**6**) 1998 p.38.